ATODLEN 4 Rheoliad 39(5)

# RHAN I

## Y MANYLION SYDD I'W COFNODI MEWN PERTHYNAS Â CHLEIFION SY'N CAEL GWASANAETHAU OBSTETRIG

**1.** Dyddiad ac amser geni plentyn bob claf, nifer y plant a anwyd i'r claf, rhyw pob plentyn a ph'un ai oedd yr enedigaeth yn enedigaeth fyw neu'n enedigaeth farw.

**2.** Enw a chymwysterau'r person a ddaeth â'r plentyn i'r byd.

**3.** Dyddiad ac amser unrhyw gamesgor a ddigwyddodd yn yr ysbyty.

**4.** Y dyddiad pan ymadawodd unrhyw blentyn a anwyd i glaf â'r ysbyty.

**5.** Os bu farw unrhyw blentyn a aned i glaf yn yr ysbyty, dyddiad ac amser y farwolaeth.

# RHAN II

## Y MANYLION SYDD I'W COFNODI MEWN PERTHYNAS Â PHLENTYN SY'N CAEL EI ENI MEWN YSBYTY ANNIBYNNOL

**1.** Manylion pwysau a chyflwr y plentyn adeg yr enedigaeth.

**2.** Datganiad dyddiol o iechyd y plentyn.

**3.** Os oes unrhyw archwiliad pediatrig yn cael ei gynnal sy'n cynnwys unrhyw un o'r dulliau canlynol—

(a) archwilio ar gyfer annormaledd cynhwynol gan gynnwys datgymaliad cynhwynol o'r glun;

(b) mesuriad o gylchedd pen y plentyn;

(c) mesuriad o hyd y plentyn;

(ch) sgrinio ar gyfer ffenylcetonwria;

manylion unrhyw archwiliad o'r fath a'r canlyniad.